# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 16 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(30)v2

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**3. Cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad (15 munud)**

**NDM4849 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad – Gorchmynion adran 109' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2011;

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B o Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Dogfen ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Busnes

**4. Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2012/13 (30 munud)**

**NDM4851 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2012-13, fel y pennir yn Nhabl 5 o'r ddogfen "Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cynigion Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2012-13", a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 9 Tachwedd 2011 a'i bod yn cael ei hymgorfforu yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

**Dogfennau ategol:**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynigion: Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2012-13
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM4852 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i helpu'r sector preifat yng Nghymru i dyfu;

2. Yn annog Llywodraeth Cymru i wella'r amodau ar gyfer twf economaidd yng Nghymru drwy:

a. gwella seilwaith a sgiliau;

b. darparu eglurder ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r economi;

c. hybu mewnfuddsoddiad i Gymru a chefnogi allforion Cymru; a

3. Yn nodi y bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys i gael arian Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd am y trydydd tro.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu is-bwyntiau 2a, 2b a 2c a rhoi yn eu lle:

a) gwella seilwaith a sgiliau drwy sefydlu rhaglen arloesi i ddatblygu'r seilwaith modern a'r sgiliau lefel uchaf y mae eu hangen ar gyfer economi fodern.

b) rhoi eglurder ynghylch cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r economi drwy leihau cyfanswm nifer y rheoliadau sydd ar fusnesau Cymru, gan gynnwys defnyddio cymalau machlud, dull un i mewn un allan, i reoliadau newydd;

c) cydnabod y bydd sector preifat llwyddiannus yn dibynnu ar fewnfuddsoddiad a busnesau sydd wedi'u creu yng Nghymru; a

d) darparu rhaglen gymorth well i fusnesau newydd Cymru, gan gynnwys undeb credyd busnesau a Chyfnewidfa Stoc Cymru.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen buddsoddi cyfalaf gynhwysfawr ledled Cymru.

**6. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM4850 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cadarnhau targedau 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' a 'Strategaeth Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd' ac yn croesawu'r cyfraniad nodedig at gyrraedd y targedau hyn gan y Ganolfan Dechnoleg Amgen yn ei strategaeth ar gyfer 'Prydain Di-garbon 2030'; ac

2. Yn galw ar Weinidogion Cymru i lansio ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus ar newid yn yr hinsawdd hyd at Gynhadledd Rio+20.

Gellir gweld 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?skip=1&lang=cy

Gellir gweld 'Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd' drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/tacklingchange/strategy/walesstrategy/?skip=1&lang=cy

Gellir gweld y strategaeth ar gyfer 'Prydain Di-garbon 2030' drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

http://www.zcb2030.org/

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei dad-ddethol]*

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn camau rhagweithiol i leihau cyfraniad Cymru at y newid yn yr hinsawdd drwy fuddsoddi mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni a fydd hefyd yn helpu i leihau tlodi tanwydd ledled Cymru.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu ‘gwybodaeth’ a rhoi ‘ymgysylltu’ yn ei le.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) rhoi’r Strategaeth Ymgysylltu ar y Newid yn yr Hinsawdd ar waith yn gynt;

b) gweithredu fel esiampl i eraill drwy ymrwymo i wneud rhagor o doriadau sylweddol i ôl troed carbon ystad y Llywodraeth a helpu i hybu lleihau allyriadau drwy’r sector cyhoeddus, y sector busnes a'r sector gwirfoddol ehangach yng Nghymru;

c) cefnogi busnesau i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd economi carbon isel; a

d) ailedrych ar ei tharged i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3% i weld a yw’n dal yn feincnod cenedlaethol priodol i geisio lliniaru’r cynnydd o 2°C yn yr hinsawdd fyd-eang.

Gellir gweld y Strategaeth Ymgysylltu ar y Newid yn yr Hinsawdd drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/engagementstrategy/?skip=1&lang=cy

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4853 Lynne Neagle (Tor-faen):**

Tynnu’r plwg - Effaith torri’r tariff cyflenwi trydan yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2011